# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

## Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2018

## 12.30–1.30

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC - Cadeirydd (DM)

**Yn bresennol:**

Joyce Watson AC

Lee Dutton - St Giles

Y Cynghorydd Graham Hinchey - Cyngor Caerdydd

Bethan T James - Cyngor Sir Gâr (BTJ)

Evan Jones - St Giles

Deborah Jones - Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care Cymru

Heidi Keiser - NSPCC

Y Cynghorydd Ash Lister - Cyngor Caerdydd

Ben Madler - Intern gyda David Melding

Y Parchedig Philip Manghan - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Sean O'Neil - Plant yng Nghymru (SON)

Elaine Speyer - NSPCC

Rachel Thomas - Cynghorydd Polisi, Comisiynydd Plant Cymru

Claire Tyler - Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Iwan Williams - Gofal Cymdeithasol Cymru

Tim Crahart - Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru - (cofnodion) (TC)

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Lee Waters AC

Maria Boffey - Pennaeth Gweithrediadau, Rhwydwaith Maethu Cymru

Sharon Lovell – Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Llinos Madeley - Clerc, Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dr Louise Roberts - Cyswllt Ymchwil, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Catriona Williams - Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru

Dan Willis - Stepping Stones

Charlotte Wooders – Rheolwr Rhaglen, Rhwydwaith Maethu Cymru

1. **Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**
   Croesawodd DM y grŵp a diolchodd i Evan a Lee o Ymddiriedolaeth St Giles am fynychu er mwyn gwneud eu cyflwyniad.
   Cafwyd ymddiheuriadau a chroesawyd Graham Hinchey fel aelod newydd o'r grŵp.

2. **Cofnodion**
   Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

3. **Materion yn codi**
   Ni chodwyd unrhyw faterion.

4. **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
   Adroddodd DM yn ôl ar gynnydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC). Dywedodd fod y PCC yn bwriadu rhannu ei adroddiad yr wythnos nesaf. Byddai DM yn croesawu adborth ar yr adroddiad. Dywedodd hefyd fod aelodaeth y PCC wedi newid ac nad oedd Lee Waters AC bellach yn cymryd rhan.

5. **Grŵp Cynghori'r Gweinidog**
   Eglurodd DM ei fod wedi cadeirio'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog (GCG) ers tair blynedd a bod y grŵp bellach ar ei ail gynllun gwaith. Mae DJ yn un o ddeugain cynrychiolydd sy'n eistedd ar y grŵp.
   Byddai Huw Irranca-Davies yn gwneud datganiad llafar y prynhawn hwnnw ar 'Wella Canlyniadau i Blant: Lleihau'r Angen i Blant fynd i Mewn i Ofal, a Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog'.
   Cytunwyd bod gofal a ddarperir gan berthynas yn fater pwysig. Mae angen hefyd deall sefyllfa plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
   Yn ogystal, mae angen canolbwyntio ar leihau nifer y plant mewn gofal. Mae bron i 6,000 o blant mewn gofal ar hyn o bryd; ugain mlynedd yn ôl, roedd llai na 3,000. Pan sefydlwyd y Cynulliad, roedd 4,000 o blant a phobl ifanc mewn gofal.
   Bellach, darperir cefnogaeth i bobl ifanc sydd wedi gadael gofal tan eu bod yn 25 oed. Mae digartrefedd, tai ac addysg i gyd yn faterion hanfodol.

6. **Cyflwyniad 'Athrawon sy'n Gofalu' gan Voices From Care Cymru**
   Cyflwynodd DJ adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd gan VFCC a Become (England) o dan y teitl, 'Athrawon sy'n Gofalu'.

Gellir dod o hyd i'r ymchwil ar wefan VFCC (http://vfcc.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Teachers-Who-Care.pdf). Mae Kirsty Williams AC wedi derbyn y canfyddiadau. Cydnabyddir bod yna bryderon am bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd.

Dywedodd GH y gallai Caerdydd wneud mwy i fynd i'r afael â hyn drwy gyrff llywodraethu. Ychydig iawn o hyfforddiant y mae athrawon sydd newydd gymhwyso yn ei gael mewn perthynas â phlant mewn gofal, ac fe adlewyrchir hyn mewn cyrff llywodraethu.

Dywedodd DJ fod arfer da ymhlith ysgolion ymlynu Sir Gâr.

Dywedodd GH fod arfer da yng Nghaerdydd ymhlith ysgolion arbenigol fel Teilo Sant, lle mae 46-47 o blant sydd wedi bod mewn gofal. Mynychodd y Dirprwy Brifathro'r digwyddiad Rhianta Corfforaethol.

Dywedodd AL mai dim ond traean o'r cynghorwyr sy'n manteisio ar yr hyfforddiant Rhianta Corfforaethol.

Teimlai SL nad oedd y cyllid ar gyfer disgyblion sydd wedi bod mewn gofal wedi'i dargedu mor effeithiol.

Dywedodd DJ y byddai'r Gweinidog yn darllen yr adroddiad yn fanwl. Dylid hyrwyddo modelau gwell a dylai timau rheoli uwch gymryd cyfrifoldeb dros blant sydd wedi bod mewn gofal o fewn eu hysgol nhw. Byddai'n dda cael un o'r llywodraethwyr yn arwain ar y mater hwn.

7. **Cyflwyniad Llinellau Sirol gan Ymddiriedolaeth St Giles**

Rhoddodd Evan o Ymddiriedolaeth St Giles (SGT) gyflwyniad ar Linellau Sirol a rhoddodd Lee y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnal yng Ngwent.

Dywedodd EJ fod rhai pobl ifanc yn cael eu hyfforddi i fynd i mewn i ofal er mwyn iddynt gael mynediad at bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae gangiau hefyd wedi dechrau targedu pobl ifanc a fyddai'n cael eu hystyried yn 'geeks' oherwydd nad ydynt yn cael sylw. Mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn bendant yn agored i niwed.

Dywedodd BTJ ei bod hi'n ymwybodol o blant a oedd wedi rhoi terfyn ar y broses o ymgysylltu â gwasanaethau; nid ydynt wedi hawlio budd-daliadau, felly sut y maen nhw'n cynnal eu hunain? Yn bendant, mae yna atyniad i werthu cyffuriau neu buteindra. Dyfynnodd berson ifanc a ddywedodd, 'Byddwn yn cael £57 yr wythnos gyda chi, neu gallaf gael hynny mewn ychydig oriau'. Mae angen opsiynau hyfyw ar bobl ifanc. Mae angen cydweithio.

Dywedodd EJ, pan fyddwch yn dadansoddi enillion y bobl ifanc, mewn gwirionedd, mae eu hymwneud â Llinellau Sirol yn fargen wael iddynt.

Gofynnodd RT am y mater o wahardd plant a phobl ifanc. A yw'r bobl ifanc i gyd wedi'u gwahardd yn swyddogol?

Ateb EJ oedd bod hon yn sefyllfa gymysg. Roedd rhai wedi'u dadgofrestru, meddai, neu'n cael eu haddysgu gartref.
Ychwanegodd LD fod rhai pobl ifanc yn cael eu gwahardd er mwyn gweithio ar Linellau Sirol.
Dywedodd SoN fod angen inni edrych ar atal y broses o wahardd. Wedyn, gofynnodd a oedd unrhyw risg i'r staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n ymwneud â Llinellau Sirol.
Atebodd EJ mai'r teimlad yw bod staff, yn gyffredinol, yn anghyffyrddadwy, ond bod yna risgiau.
Dywedodd BTJ fod angen rhaglen addysg mewn ysgolion er mwyn atal gangiau rhag meithrin perthynas amhriodol gyda phlant sy'n agored i niwed.
Gofynnodd PM a fyddai modd cael diweddariad ar Linellau Sirol mewn blwyddyn.

**8. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

#########